

WYTHNOS DIOGELU GENEDLAETHOL 14-18 O DACHWEDD 2022

THEMA: DIOGELU CYFOES

#DiogeluCymru

Dydd Llun 14 Tachwedd			
Amser	Manylion am y digwyddiad	Cynulleidfa	Sut i gael mynediad
I'w gadarnhau	Safonau Hyfforddiant Cenedlaethol	Gweithwyr proffesiynol	Rhagor o fanylion i'w ddilyn.
09:45-15:30	<p>Cyflwyniad i ymdrin â materion hunanladdiad a hunan-niwed ymysg plant a phobl ifanc</p> <p>Mae'r cwrs hwn yn darparu gwell ymwybyddiaeth o ystyr hunan-niwedio a hunanladdiad. Dylai ymarferwyr allu nodi risgiau'r ymddygiad hwn ymhlith plant a phobl ifanc a chydabod y gwahaniaeth rhwng ymddygiad hunanladdol a hunan-niwediol. Bydd y cwrs yn rhoi'r hyder i ymarferwyr reoli datgeliadau a chymryd camau pellach.</p>	Gweithwyr proffesiynol	Introduction to handling issues of Suicide and Self Harm in Children and Young People (14/11/22) - Gwent Safeguarding

Dydd Mawrth 15 Tachwedd			
Amser	Manylion am y digwyddiad	Cynulleidfa	Sut i gael mynediad
12:00-13:30	Charlotte Waite, Rheolwr Rhaglen, NESTA	Gweithwyr proffesiynol	25 o gyfranogwyr (mae'r sesiynau hyn yn rhedeg o ddydd Mawrth i ddydd Gwener; cadwch

	<p>Gall ymarferwr sinigaidd deimlo nad yw llawer o'r cysyniadau sydd wedi'u plethu mewn chwilfrydedd proffesiynol yn newydd, h.y. gweithio'n gyfannol gyda'r teulu cyfan, peidio â barnu, cael sgysiau anodd a defnyddio ymarfer myfyriol. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio'r elfennau hyn yn fras ond hefyd yn ystyried pam y gallant fod yn heriol i'w cynnal, eu meithrin a'u hehangu yn ein hymarfer. Y nod yw tanio syniadau ar sut i integreiddio meddylfryd a diwylliant proffesiynol chwilfrydig yn ein gwaith.</p>		<p>eich lle ar un sesiwn yn unig)</p> <p>15th November 2022 - Professional Curiosity Booking Form (2) (office.com)</p>
--	---	--	---

Dydd Mercher 16 Tachwedd			
Amser	Manylion am y digwyddiad	Cynulleidfa	Sut i gael mynediad
09:30-12:30	<p>Digwyddiad Rhanbarthol Rhithwir Rhwydweithiau Diogelu Lleol:</p> <p>Cyflwyniadau gan:</p> <p>Simon Howarth a Taliah Drayak, Aelodau Craidd, Parents, Families, and Allies Network (PFAN):</p> <p>Mae PFAN yn darparu eiriolaeth a chymorth i rieni mewn meysydd penodol o amddiffyn plant, gan gynnwys mabwysiadu, ymweld â phlant mewn gofal, a'r gyfraith o ran amddiffyn plant. Mae Taliah a Simon yn aelodau o PFAN (http://www.pfan.uk/). Byddant yn trafod pa mor aml y mae rhieni yn ymwneud â gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd a'r rôl hanfodol y gall eiriolaeth rhieni ei chwarae.</p> <p>Lorrain Griffiths, Rheolwr Ardal, BAWSO:</p> <p>Bydd Lorraine yn rhoi cyflwyniad ar Briodasau dan Orfod a Cham-drin ar Sail Anrhydedd. Bydd y cyflwyniad yn amlygu rhai o'r rhesymau pam</p>	<p>Asiantaethau Rhwydweithiau Diogelu Lleol</p> <p>200 o leoedd</p>	<p>National Safeguarding Week Practitioner Forum - 16.11.2022</p>

mae'r arferion diwylliannol hyn yn cael eu cyflawni ac yn edrych ar yr effaith andwyol y maent yn ei chael ar ddioddefwyr. Bydd y cyflwyniad yn ceisio atgoffa ymarferwyr mai eu cyfrifoldeb nhw yw gweithredu ar unrhyw ddatgeliadau a wneir gan ddioddefwyr a sut y gallant wneud hyn.

Kathy Jacobs, Rheolwr Prosiect, a Betsan Evans, Dirprwy Reolwr Tîm, Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches (UASC)

Yn hanesyddol, bu Casnewydd yn ganolfan i deuluoedd mudol a phobl ifanc sy'n cyrraedd Cymru. O dan Gynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS) y Swyddfa Gartref, mae poblogaeth Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches (UASC) wedi tyfu dros y ddwy flynedd diwethaf. Disgwylir i'r cynnydd hwn mewn niferoedd barhau ac mae Awdurdodau Lleol ledled Gwent bellach yn cael eu gorfodi i gymryd UASC.

Bydd y cyflwyniad hwn yn edrych ar yr heriau o weithio gyda'r grŵp hwn o bobl ifanc, a'r atebion sy'n cael eu datblygu yng Nghasnewydd a ledled Gwent.

Sharron Wareham, Barnardo's, Gwell Dyfodol Cymru , Dim ond un clic... 'Plant, Technoleg ac Ymddygiad Ar-lein'

Mae Gwell Dyfodol Cymru Barnardo's yn wasanaeth sy'n deilio â cham-drin plant yn rhywiol ac yn gweithio gyda phlant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol ledled ei holl feysydd. Dros y degawd diwethaf, mae mynediad at dechnoleg wedi cynyddu ar gyfer pob grŵp yn y gymdeithas, efallai hyd yn oed yn fwy, felly, yn ystod cyd-destun y

	<p>pandemig COVID-19. I blant a phobl ifanc, mae gan y rhan fwyaf o agweddau ar fywyd heddiw elfen ar-lein, gan gynnwys addysg, perthnasoedd cymdeithasol ac adloniant. Yn Gwell Dyfodol, rydym wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau am gymorth mewn perthynas ag Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant lle mae technoleg yn rhan o'r broblem.</p> <p>Bydd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar dystiolaeth ymarfer ynghylch ffactorau i'w hystyried wrth nodi, asesu ac ymyrryd â phlant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol ar-lein. Bydd yn rhoi mewnwelediad i'r ffactorau sy'n cynyddu'r risg i niwed a'r bregusrwydd i gael ei niweidio i blant mewn gofodau digidol, yn ogystal â beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer ymyrraeth.</p>		
12:00-13:30	<p>Charlotte Waite, Rheolwr Rhaglen, NESTA</p> <p>Gall ymarferwr sinigaidd deimlo nad yw llawer o'r cysyniadau sydd wedi'u plethu mewn chwilfrydedd proffesiynol yn newydd, h.y. gweithio'n gyfannol gyda'r teulu cyfan, atal barn, cael sgysiau anodd a defnyddio ymarfer myfyriol. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio'r elfennau hyn yn fras ond hefyd yn ystyried pam y gallant fod yn heriol i'w cynnal, eu meithrin a'u hehangu yn ein hymarfer. Y nod yw tanio syniadau ar sut i integreiddio meddylfryd a diwylliant proffesiynol chwilfrydig yn ein gwaith.</p>	Gweithwyr proffesiynol	<p>25 0 gyfranogwyr (mae'r sesiynau hyn yn rhedeg o ddydd Mawrth i ddydd Gwener; cadwch eich lle ar un sesiwn yn unig)</p> <p>16th November 2022 - Professional Curiosity Booking Form (office.com)</p>
I'w gadarnhau	Cynhadledd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB)	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

Dydd Iau 17 Tachwedd

Amser	Manylion am y digwyddiad	Cynulleidfa	Sut i gael mynediad
12:00-13:30	<p>Charlotte Waite, Rheolwr Rhaglen, NESTA</p> <p>Gall ymarferwr sinigaidd deimlo nad yw llawer o'r cysyniadau sydd wedi'u plethu mewn chwilfrydedd proffesiynol yn newydd, h.y. gweithio'n gyfannol gyda'r teulu cyfan, atal barn, cael sgysiau anodd a defnyddio ymarfer myfyriol. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio'r elfennau hyn yn fras ond hefyd yn ystyried pam y gallant fod yn heriol i'w cynnal, eu meithrin a'u hehangu yn ein hymarfer. Y nod yw tanio syniadau ar sut i integreiddio meddylfryd a diwylliant proffesiynol chwilfrydig yn ein gwaith.</p>	Gweithwyr proffesiynol	<p style="text-align: center;">Cyfranogwyr (mae'r sesiynau hyn yn rhedeg o ddydd Mawrth i ddydd Gwener; cadwch eich lle ar un sesiwn yn unig)</p> <p style="text-align: center;">17th November 2022 - Professional Curiosity Booking Form (office.com)</p>
13:00-16:00	<p>Digwyddiad Rhanbarthol Rhithwir Rhwydweithiau Diogelu Lleol:</p> <p>Cyflwyniadau gan:</p> <p>Cicelie Vobe, Cydlynnydd Prosiect Mannau Diogel Cymru:</p> <p>Bydd Cicelie yn rhoi cyflwyniad ar y cynllun Mannau Diogel cenedlaethol. Mae Mannau Diogel yn fenter arwyddbostio sy'n gweithio gyda fferyllfeydd a banciau i gynyddu llwybrau i oroeswyr cam-drin domestig gael mynediad at gymorth lleol a chenedlaethol. Bydd Cicelie yn siarad am y lleoliadau ffisegol a'r teclyn Mannau Diogel Ar-lein ac mae'n edrych ymlaen at glywed unrhyw adborth sydd gennych chi neu brofiadau defnyddwyr.</p> <p>Yr Athro Sally Holland, Cascade, Diwedd cosb gorfforol yng Nghymru (fideo wedi'i recordio ymlaen llaw):</p> <p>Sally Holland, Athro Gwaith Cymdeithasol yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd,</p>	<p>Asiantaethau Rhwydweithiau Diogelu Lleol</p> <p>200 o leoedd</p>	<p>National Safeguarding Week Practitioner Forum - 17.11.2022</p>

yn sôn am y newid diweddar yn y gyfraith yng Nghymru, sy'n rhoi terfyn ar unrhyw amddiffyniad cyfreithiol sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol. Mae Sally yn trafod beth mae'n ei olygu i rieni a gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol a grwpiau cymunedol ehangach, a'r plant eu hunain.

Ditectif Arolygydd Jamie Cooper, Tîm Ymchwiliadau Ar-lein yr Heddlu (POLIT), Heddlu Gwent:

Bydd y cyflwyniad hwn yn edrych yn fras ar y gwahanol fathau o gam-drin ar-lein sy'n digwydd fwyfwy ar-lein. Byddwn yn edrych yn benodol ar waith Tîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu (POLIT), sef tîm o swyddogion arbenigol sy'n ymroddedig i ymchwilio i feddiant a rhannu delweddau anwedus ar-lein.

Babs Walsh, Cyngorydd Arweiniol Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Gwent:

'Cyflwyniad byr i Gam-drin a Hwylusir gan Dechnoleg (TFA) – Math o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, sy'n galluogi cam-drin i gael ei gyflawni yn y cartref ac o bell, gan ddefnyddio technoleg a'r rhyngwrwyd.'

Gall ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi hefyd ddigwydd gan ddefnyddio technoleg a'r rhyngwrwyd, gan alluogi'r cam-drin i gael ei gyflawni yn y cartref ac o bell. Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Refuge fod 1 o bob 6 (16%) o'r rhai a oedd yn profi o leiaf un ymddygiad sy'n awgrymu cam-drin neu aflonyddu ar-lein wedi adrodd am hyn gan bartner presennol neu gynbartner. Mae'r ffigwr hwn yn

	<p>codi i 1 o bob 5 (22%) ymhlith merched iau rhwng 18 a 3455. Gall hyn ddigwydd yn ystod perthynas agos ond hefyd ar ôl gwahanu. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o gam-drin a hwylusir gan dechnoleg a sut y gall chwarae rhan allweddol mewn cam-drin domestig. Dylid rhoi ystyriaeth i berthnasoedd agos pobl ifanc, o ystyried bod eu bywydau yn aml wedi'u seilio'n drwm ar-lein.</p>		
--	--	--	--

Dydd Gwener 18 Tachwedd			
Amser	Manylion am y digwyddiad	Cynulleidfa	Sut i gael mynediad
12:00-13:30	<p>Charlotte Waite, Rheolwr Rhaglen, NESTA</p> <p>Gall ymarferwr sinigaidd deimlo nad yw llawer o'r cysyniadau sydd wedi'u plethu mewn chwilfrydedd proffesiynol yn newydd, h.y. gweithio'n gyfannol gyda'r teulu cyfan, peidio â barnu, cael sgysiau anodd a defnyddio ymarfer myfyriol. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio'r elfennau hyn yn fras ond hefyd yn ystyried pam y gallant fod yn heriol i'w cynnal, eu meithrin a'u hehangu yn ein hymarfer. Y nod yw tanio syniadau ar sut i integreiddio meddylfryd a diwylliant proffesiynol chwilfrydig yn ein gwaith.</p>	Gweithwyr proffesiynol	<p>25 o gyfranogwyr (mae'r sesiynau hyn yn rhedeg o ddydd Mawrth i ddydd Gwener; cadwch eich lle ar un sesiwn yn unig)</p> <p>Professional Curiosity (18/11/2022) - Gwent Safeguarding</p>